**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Lynne Neagle AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

24 Mehefin 2024

**Recriwtio a chadw athrawon**

Annwyl Lynne

Rydym yn awyddus i archwilio materion sy'n ymwneud â recriwtio a chadw athrawon, ac rydym wedi dechrau siarad â rhanddeiliaid ac edrych ar ddata diweddar am y gweithlu i ddeall yn well beth yw'r materion sy'n wynebu'r gweithlu addysg.

Dros yr wythnosau diwethaf, rwyf fi, a rhai o fy nghyd-aelodau ar y Pwyllgor, wedi cwrdd â chynrychiolwyr cyrff gwyddoniaeth i drafod nifer yr athrawon gwyddoniaeth arbenigol mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru. Mae'r Sefydliad Ffiseg wedi darparu nodyn briffio i ni.

Mae'r pryderon a godwyd gan y cyrff gwyddoniaeth yn cynnwys y canlynol:

- Mae prinder cenedlaethol o athrawon gwyddoniaeth arbenigol (er bod prinder data i nodi pa ysgolion sydd heb athrawon arbenigol).
- Mae llawer llai o fyfyrwyr yn cymhwyso fel athrawon gwyddoniaeth drwy astudiaethau Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) na thargedau recriwtio Llywodraeth Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg.[1]
- Mae bwrsariaethau Pwnc Blaenoriaeth AGA Cymru yn werth llai na bwrsariaethau cyfatebol yn Lloegr.

[1] Ar gyfer Ffiseg, dengys data CGA mai dim ond 3 myfyriwr a gymhwysodd yn 2022/23 gydag un myfyriwr yn gohirio, o'i gymharu â'r targed derbyn o 58.). Methwyd y targed hefyd, ond i raddau llai, yn 2021/22 a 2020/21 (dengys data CGA bod 17 o 21 o fyfyrwyr wedi pasio eu cyrsiau AGA yn 2021/22 yn erbyn targed derbyn o 58, a bod 24 o 38 myfyriwr wedi cymhwyso yn 2020/21 yn erbyn targed derbyn o 63).

Cododd y Sefydliad Ffiseg y pryderon hyn yng nghyd-destun sgôr PISA isaf erioed Cymru mewn gwyddoniaeth yn 2022.

Cawsom ein syfrdanu gan yr ystadegau a rannodd y cyrff gwyddoniaeth gyda ni. Er ein bod yn cydnabod bod cyfanswm nifer yr athrawon ysgol cofrestredig fel y cyhoeddwyd gan Gyngor y Gweithlu Addysg wedi cynyddu ychydig yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym yn bryderus iawn bod y ffigurau cyffredinol hyn yn cuddio prinder o fewn meysydd pwnc penodol. Rydym hefyd yn ymwybodol bod targedau derbyn wedi'u methu mewn pynciau eraill, yn enwedig y pynciau blaenoriaeth eraill ar gyfer recriwtio.

Maes arall lle mae gennym bryderon ynghylch recriwtio athrawon yw nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg - ffactor allweddol yn amcanion Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Mae hwn yn fater a gododd yn flaenorol gyda ni gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg gyda ni. Rydym yn nodi o ddatganiad ystadegol blynyddol Llywodraeth Cymru, gyda'r diweddaraf ar gyfer 2021/22:

- Roedd gostyngiad o 4 y cant yn nifer y myfyrwyr a gafodd eu recriwtio ar gyrsiau addysg gychwynnol athrawon, a oedd yn bwriadu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn 2021/22 o'i gymharu â 2020/21. Cyn hynny, roedd wedi cynyddu am ddwy flynedd yn olynol yn 2019/20 a 2020/21 yn dilyn pum mlynedd o ostyngiadau.

- Hyfforddwyd cyfanswm o 325 o fyfyrwyr i addysgu yn y Gymraeg yn 2021/22 – 20 y cant o'r 1,610 o athrawon dan hyfforddiant. Mae'r ffigwr yr un fath ag yr oedd yn 2020/21. (Roedd cynnydd amlwg o 16 y cant yn 2018/19 i 22 y cant yn 2019/20.) Ein dealltwriaeth yw bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bartneriaethau Addysg Gychwynnol Athrawon weithio tuag at dderbyn 30 y cant o fyfyrwyr sy'n paratoi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Er bod nifer y rhai sy'n hyfforddi i addysgu yn y Gymraeg wedi cynyddu ar lefel ysgol gynradd (cynnydd o 10 y cant o 2020/21 i 2021/22), roedd gostyngiad o 22 y cant yn y myfyrwyr cyfatebol ar gyfer ysgolion uwchradd yn yr un cyfnod.

Rydym felly wedi nodi recriwtio a chadw athrawon fel maes blaenoriaeth i ni ymchwilio yn fwy manwl iddo. Er mwyn ein cefnogi gyda'n gwaith cwmpasu, buaswn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cwestiynau canlynol:

1. Beth yw eich asesiad cyffredinol o gyflwr recriwtio a chadw athrawon ledled Cymru ar draws yr ystod oedran statudol, o ran yr heriau staffio sy'n wynebu ysgolion nawr, a nodau tymor hwy Llywodraeth Cymru i godi safonau addysgol?

2. Sut rydych chi'n ymateb i'r pryderon a godwyd gan y cyrff gwyddoniaeth ynghylch digonolrwydd athrawon ysgolion uwchradd arbenigol ym maes gwyddoniaeth yng

Nghymru? A oes unrhyw bynciau eraill y mae gennych bryderon penodol amdanynt (e.e. Cymraeg (fel pwnc), ieithoedd tramor modern, mathemateg a TG)?


3. Beth yw eich asesiad o ddigonolrwydd y gweithlu addysg sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a phwysigrwydd hyn i uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu hyfedredd yn y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg?

4. Ydych chi'n credu bod y bwrsariaethau a gaiff eu cynnig i athrawon dan hyfforddiant ar hyn o bryd yn ddigonol, yn benodol yng nghyd-destun bwrsariaethau uwch a gynigir yn Lloegr?

5. A hoffech godi unrhyw beth arall gyda ni yr ydych yn credu sy'n berthnasol i unrhyw waith a wnawn yn y dyfodol mewn perthynas â recriwtio a chadw athrawon?

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn dydd Gwener 30 Awst 2024.

Yn gywir,



Buffy Williams AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.